

Canllawiau MyView ResourceLink

Newid Manylion Banc

Adolygwyd Mawrth 2021

sirgar.llyw.cymru


Newid Eich Manylion Banc

Mae hunanwasanaeth MyView yn eich galluogi i fynd ati'n annibynnol i newid eich gwybodaeth fancio yn yr adran manylion personol. Mae'r ddogfen hon yn eich arwain drwy'r broses o newid eich manylion.

Sicrhewch fod eich manylion wedi'u newid cyn y 10^{fed} o'r mis neu ni fydd sicrwydd y bydd y taliad yn mynd i'r cyfrif newydd a bydd manylion yr hen gyfrif yn parhau i fod ar waith.

Mewngofnodwch i'ch cyfrif MyView drwy ddefnyddio'ch enw defnyddiwr a'ch cyfrinair. O dan **Dangosfwrdd** dewiswch **Manylion Personol** a sgroliwch i lawr i **Manylion Banc**.

SYLWER: Ni allwch gopïo a gludo yn ystod y broses hon.



Dyma'r **unig** fanylion y bydd angen i chi eu newid ar y sgrin hon:

Rhif y Cyfrif - Rhowch rif eich cyfrif banc **NEWYDD**.

Cadarnhau Rhif y Cyfrif - Rhowch rif eich **HEN** gyfrif banc, h.y. rhif y cyfrif yr ydych yn newid.

Os ydych yn ddechreuwr newydd, gadewch y blwch hwn yn wag.

Enw'r Cyfrif - Rhowch eich enw fel y mae ar eich cerdyn.

Math o Gyfrif - Dewiswch fath o gyfrif o'r gwymplen.

Côd Didoli - Rhowch y rhifau'n unig heb roi dashiau

Ar ôl rhoi'r côd didoli bydd cyfeiriad y banc yn cael ei lenwi'n awtomatig.

Peidiwch â chlicio ar 'Cadw' heblaw nad ydych am weithredu'r newid hwn ar unwaith. Ni fydd clicio ar 'Cadw' yn diweddarau manylion eich cyfrif newydd ar eich cofnod adnoddau dynol/cyflogres.

Cliciwch ar 'Cyflwyno' ar **waelod** y dudalen i weithredu'r newid ar eich cofnod adnoddau dynol/cyflogres.

Sylwer: Gofynnir i chi am yr eildro nodi eich HEN fanylion banc ac wedyn Cliciwch ar Barhau

Bydd negeseuon gwall yn ymddangos uwchben y manylion cyfrif os nad oes unrhyw wybodaeth yn bodloni'r gwiriadau dilysrwydd a bennir yn y system. Gwiriwch fanylion eich cyfrif a gnewch y broses o newid y manylion eto.

Sylwer: Bydd y neges ar frig y sgrin yn rhoi gwybod i chi pryd fydd yr amser gorau i newid manylion eich cyfrif, yn seiliedig ar ba mor aml rydych yn cael eich talu, er mwyn sicrhau y bydd eich taliad nesaf yn cael ei dalu i'ch cyfrif newydd.

Os bydd angen rhagor o gymorth arnoch, mae croeso i chi anfon neges e-bost at resourcelink@sirgar.gov.uk gan ddyfynnu eich rhif gweithiwr a'r rheswm dros eich ymholiad.